# Ceisiadau yn ymwneud â'r Aelod Cynulliad Adam Price

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

12 Mawrth 2018

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 15 Chwefror, pan wnaethoch ofyn:

> *Byddwn yn ddiolchgar i dderbyn gwybodaeth ynghylch y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ydych wedi'u derbyn yn ymwneud â'r Aelod Cynulliad Adam Price rhwng 5 Mai 2016 a heddiw.*
> *Dylai'r wybodaeth yr hoffwn ei derbyn restru:*
> - *Y dyddiadau y gwnaethpwyd y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth;*
> - *Enw'r sefydliad, y corff neu'r unigolyn a wnaeth pob cais Rhyddid Gwybodaeth; ac*
> - *Union natur pob un o'r ceisiadau.*

Cawsom un cais yn ymwneud â'r Aelod Cynulliad Adam Price ddydd Iau 1 Chwefror 2018. Mae natur y cais wedi'i nodi isod.

> *A wnewch chi ddarparu copïau o'r holl ohebiaeth rhwng Adam Price neu unrhyw aelod o staff grŵp y Cynulliad Plaid Cymru, a Chomisiwn y Cynulliad, y Llywydd neu unrhyw un o'i staff rhwng 22 Ionawr a 31 Ionawr.*

Mae gennym y wybodaeth rydych wedi gofyn amdani ond ni allwn roi enw'r sefydliad na'r unigolyn a wnaeth y cais gan y byddai datgelu gwybodaeth, yn ein barn ni, yn mynd yn groes i egwyddor gyntaf diogelu data a nodir yn Neddf Diogelu Data 1998. Felly, mae'r wybodaeth wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3)(a)(i) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ('y Ddeddf'). Mae manylion pellach am y rhesymeg y tu ôl i'r casgliad hwn yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.


Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybod@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales


**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae’r cod wedi’i gyhoeddi ar ein gwefan: http://www.assembly.wales/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych bryder neu achos dros gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliad.cymru/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**ATODIAD**

**Adran 40 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**

Mae peth o'r wybodaeth y gwneir cais amdani yn dod o dan y diffiniad o ddata personol yn Neddf Diogelu Data 1998, sef:

> "data which relate to a living individual who can be identified from those data, or from those data and other information which is in the possession of, or is likely to come into the possession of, the data controller".

Felly, mae'r wybodaeth hon wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3)(a)(i) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("y Ddeddf"), lle byddai ei datgelu yn mynd yn groes i unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data. Yr egwyddor sy'n berthnasol ar yr achlysur hwn yw'r egwyddor gyntaf.

Mae'r egwyddor gyntaf o ran diogelu data, fel y nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 1998, yn nodi:

> "Personal data shall be processed fairly and lawfully and, in particular, shall not be processed unless at least one of the conditions in Schedule 2 is met…"

Wrth benderfynu a fyddai datgeliad yn deg, rydym wedi ystyried goblygiadau'r datgeliad, disgwyliadau rhesymol yr unigolion y byddai'r data personol yn cael eu datgelu, a'r cydbwysedd rhwng hawliau'r unigolion, ein dyletswydd ac unrhyw fudd dilys sy'n deillio o'r datgeliad. Nid yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ceisio caniatâd y ceisydd i ddatgelu gwybodaeth bersonol amdano/amdani, gan ein bod yn credu y byddai hyn yn amhriodol, a thu hwnt i ddisgwyliad rhesymol preifatrwydd. Fel awdurdod cyhoeddus a restrir yn atodlen 1 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae'n rhaid inni gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a sicrhau bod unigolion a sefydliadau'n ymddiried ynom i brosesu eu data personol mewn modd teg a chyfreithlon. Gall barnu dilysrwydd cais weithiau fod yn anodd mewn amgylchedd gwleidyddol, ond nid yw hyn yn lleihau hawl unigolyn neu sefydliad i breifatrwydd wrth ofyn am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Hoffwn dynnu eich sylw hefyd at ddyfyniad o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sy'n disgrifio pam y dywedir weithiau bod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn ddall o ran pwrpas ac ymgeisydd.

Ein casgliad yw y byddai datgelu yn annheg.  Mae'n werth nodi nad yw'r wybodaeth wedi bod yn gyhoeddus.  Mae natur y wybodaeth yn creu disgwyliad yn erbyn datgeliad.  Byddai canlyniadau datgelu, yn ôl pob tebygolrwydd, yn peri gofid i destun y data.

Er gwaethaf ein barn ynghylch tegwch, aethom ati i ystyried Atodlen 2 i Ddeddf Diogelu Data 1998.  Nid yw unrhyw un o'r amodau yn Atodlen 2 yn berthnasol, heblaw paragraff 6, sy'n caniatáu prosesu gwybodaeth bersonol fel a ganlyn:

> "The processing is necessary for the purposes of legitimate interests pursued by the data controller or by the third party or parties to whom the data are disclosed, except where the processing is unwarranted in any particular case by reason of prejudice to the rights and freedoms or legitimate interests of the data subject."

Mae'r amod hwn yn cynnwys prawf mewn tair rhan:

- Mae'n rhaid bod budd cyhoeddus dilys mewn datgelu'r wybodaeth;
- Mae'n rhaid i'r datgeliad fod yn angenrheidiol i sicrhau budd i'r cyhoedd; ac
- Mae'n rhaid sicrhau nad yw'r datgeliad yn achosi ymyrraeth ddiangen â hawliau, rhyddid a buddiannau cyfreithlon testun y data.

Mae diddordeb cyhoeddus cyfreithlon mewn tryloywder mewn termau cyffredinol o ran trin a phrosesu ceisiadau rhyddid gwybodaeth yn gyffredinol. Fodd bynnag, ni allwn weld unrhyw fudd cyhoeddus cyfreithlon wrth ddatgelu data personol.  Felly, ein casgliad yw na fyddai'n bosibl bodloni un o'r amodau yn Atodlen 2.  Yn unol â hynny, ni wnaethom ystyried geddill y prawf.

# Dyfyniad o wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

## Beth yw'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth?

Y brif egwyddor y tu ôl i ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth yw bod gan bobl yr hawl i wybod am weithgareddau awdurdodau cyhoeddus, oni bai fod rheswm da iddynt beidio â gwneud hynny. Caiff hyn ei ddisgrifio weithiau fel rhagdybiaeth neu dybiaeth o blaid datgelu. Dywedir weithiau, hefyd, bod y Ddeddf yn ddall o ran pwrpas ac ymgeisydd.

Mae hyn yn golygu:

- bod gan bawb yr hawl i gael gafael ar wybodaeth swyddogol. Dylai datgelu gwybodaeth fod yn ddiofyn - mewn geiriau eraill, dim ond pan fo rheswm da, ac y caniateir hynny gan y ddeddf, y dylid cadw gwybodaeth yn breifat
- nid oes angen i ymgeisydd (gofynydd) roi rheswm i chi am wneud y cais am wybodaeth. I'r gwrthwyneb, mae'n rhaid i chi gyfiawnhau gwrthod rhoi'r wybodaeth;
- mae'n rhaid i chi drin pob cais am wybodaeth yn gyfartal, ac eithrio o dan rai amgylchiadau sy'n ymwneud â cheisiadau blinderus a data personol (gweler Pryd y gallwn wrthod cais? am fanylion ar y rhain). Ni ddylai pwy ydynt effeithio ar y wybodaeth y gall rhywun ei chael o dan y Ddeddf. Dylech drin yr holl geiswyr gwybodaeth yn gyfartal, p'un a ydynt yn newyddiadurwyr, trigolion lleol, gweithwyr awdurdod cyhoeddus neu'n ymchwilwyr tramor; ac
- oherwydd y dylech drin yr holl geiswyr gwybodaeth yn gyfartal, dim ond os y byddech yn datgelu gwybodaeth i unrhyw un arall a fyddai'n gwneud cais amdani y dylech ddatgelu gwybodaeth o dan y Ddeddf. Mewn geiriau eraill, dylech ystyried unrhyw wybodaeth rydych chi'n ei rhyddhau o dan y Ddeddf fel petai'n cael ei rhyddhau i'r byd yn gyffredinol.